



Newidiadau asesu ar gyfer arholiadau haf 2021

Rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i CBAC wneud [newidiadau priodol](#) i TGAU a Safon Uwch ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll arholiadau yn haf 2021.

Mae dysgwyr Blwyddyn 10 a 12 presennol eisoes wedi colli pedwar mis o amser dosbarth o ganlyniad i COVID-19. Rydym wedi gwrandao ar y pryderon a fynegwyd gan athrawon ynghylch sut y byddant yn ymdrin â'u rhaglenni astudio erbyn haf 2021.

Nod y newidiadau hyn yw mynd beth o'r ffordd i fabwysiadu'r gofynion asesu ar gyfer dysgwyr fydd yn sefyll eu harholiadau y flwyddyn nesaf. Bydd yn rhoi mwy o amser i athrawon gyflwyno'r cynnwys, gan wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael pan fydd ysgolion yn aildechrau.

Bydd y cynigion hyn hefyd yn helpu canolfannau i reoli unrhyw drefniadau diogelu parhaus ar iechyd y cyhoedd, gan sicrhau bod y cymwysterau yn parhau i fod yn ddilys ac yn ystyrlon.

Bydd cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw addasiadau ar gyfer asesiadau o fis Medi 2020 ymlaen. Rydym wedi cyhoeddi [datganiad](#) ar y dull arfaethedig o wneud addasiadau i gymwysterau galwedigaethol ar ein gwefan, a byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth cyn gynted â phosibl.



Cyfle i glywed ein gweminar diweddaraf

Cynhaliwyd gweminar gennym yn syth ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad ar y penderfyniadau ynghylch cyhoeddi graddau'r haf hwn. Fe'i harweiniwyd gan ein Prif Weithredwr, Philip Blaker a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio, Jo Richards, a chafodd ei

recordio ar gyfer unrhyw un nad oedd yn gallu gwrando'n fyw.

Fe welwch y **recordiad llawn**, ynghyd â holl fanylion yr adroddiad penderfyniadau ar y nodau a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol i'w ddefnyddio gan CBAC ar gyfer cyhoeddi graddau'r haf hwn yn yr adran COVID-19 ar ein gwefan.

Unrhyw gwestiynau?

Mae cymhlethdod a natur yr amgylchiadau sy'n newid yn gyflym a achosir gan COVID-19 yn golygu ein bod yn diweddarau ein adran cwestiynau cyffredin yn gyson gyda chwestiynau sy'n cael eu hanfon i mewn gan athrawon, dysgwyr a'r cyhoedd. Beth am **nodi'r dudalen** i ddod o hyd i'r cwestiynau a'r atebion diweddaraf? Os oes gennych gwestiwn nad yw wedi cael sylw, anfonwch ef atom yn cyfathrebu@cymwysteraucymru.org



Recriwtio

Mae gennym nifer o gyfleoedd cyffrous ar ein **gwefan**. Dyma'r swyddi gwag sydd gennym ar hyn o bryd:

Cynorthwy-ydd Cymwysterau

Band 2 – Ystod cyflog £25,030- £28,850 y flwyddyn

Dyddiad cau: Hanner dydd, 24 Gorffennaf 2020

Rheolwr Polisi Rheoleiddio

Band 4 – Ystod cyflog £39,310 - £47,000 y flwyddyn

Dyddiad cau: Hanner dydd, 22 Gorffennaf 2020

Ystadegydd

Band 3 – Ystod cyflog £30,600 - £37,410 y flwyddyn

Dyddiad cau: Hanner dydd, 22 Gorffennaf 2020

Rhag ofn i chi ei golli

- [Ein datganiad ar bapur safwynt Ofqual ynghylch Cymwysterau ac Aseidiadau Galwedigaethol a Thechnegol 2020-21](#)

Ymgynghoriad ynghylch trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 - cyhoeddi penderfyniadau, dadansoddiad o'r canfyddiadau, gwybodaeth i ymgeiswyr preifat ac esboniad o'r broses apelio.

•



Ein blogiau diweddaraf

- – Philip Blaker, Prif Weithredwr
- Beth yn y byd yw safoni ystadegol? – Tom Anderson, Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau, Cymwysterau Cymru
- A fydd graddau eleni yn dal dŵr yn y dyfodol? – Ceri Assirradi, Rheolwr Gwasanaethau Pobl, Admiral Group
- Nid yw arholiadau sydd wedi'u canslo yn golygu nad ydym wedi gweithio'n galed ar gyfer ein graddau – Dewi Jones, Disgybl Blwyddyn 13, Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danystrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

Rydych yn derbyn y cylchlythyr hwn fel prif gyswllt mewn sefyliad rhanddeiliaid. Nodwch ein bod yn cadw eich manylion cyswllt ar ein systemau o dan y sail gyfreithiol o brosesu er budd y cyhoedd, ac yn unol â'n swyddogaethau statudol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at ein [hysbysiad preifatrwydd](#).

The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg

You can follow us on social media for the latest news on our work:
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:

comms@qualificationswales.org

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.